Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

ADRAN DIOGELWCH CYMUNEDOL

Hyfforddwr CADETIAID TÂN

Cyflog: £13.92 yr awr

Mae Cadetiaid Tân yn Sefydliad Ieuenctid Gwisg Cenedlaethol a gefnogir gan y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol ac a ddarperir gan y Gwasanaethau Tân ac Achub ledled y DU ar gyfer pobl ifanc 13 - 18 oed.

Mae Cadetiaid Tân yn cynnig cyfleoedd cynhwysol hwyliog a heriol i bobl ifanc a'i nod yw datblygu sgiliau personol a chymdeithasol trwy weithgareddau sy'n hybu hunanddisgyblaeth, gwaith tîm a dinasyddiaeth. Mae ein Cadetiaid Tân yn cael cyfle i weithio tuag at ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol a chyrraedd eu llawn botensial gan gyfrannu at gymunedau mwy diogel, cryfach ac iachach.

Mae'r Gwasanaeth Tân yn darparu modelau rôl cryf sy'n ysbrydoli ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar bobl ifanc ac rydym ar hyn o bryd yn edrych i recriwtio Hyfforddwyr i gefnogi'r gwaith o ddarparu Cadetiaid Tân yn ein Hunedau ar draws Ardal GTADC.

Mae ein Cadetiaid Tân yn cyfarfod yn ystod y tymor ac am un noson yr wythnos rhwng 18.30 a 20.30. Mae'r rhaglen wedi'i hadeiladu o amgylch blwyddyn cwricwlwm ysgol, felly bydd ein Hunedau ar gau yn ystod pob un o'r gwyliau ysgol.

Mae gan naw o'n deuddeg Uned Cadetiaid Tân a leolir ar draws GTADC lefydd gwag fel y rhestrir isod:

Gorsaf	**Nos**	**Gorsaf**	**Nos**
Y Fenni	Iau (Swyddi gwag)	Pen-y-bont ar Ogwr	Fawrth (Swydd wag dros dro)
Y Barri	Fawrth (Swyddi gwag)	Caerffili	Fawrth (Swyddi gwag)
Cwmbrân	Fawrth (Swyddi gwag)	Elai	Lun (Swyddi gwag)
Merthyr Tudful	Fawrth (Swyddi gwag)	Y Rhath	Lun (Swyddi gwag)
Tredegar	Lun (Swyddi gwag)		

Mae contractau unigol ar gael am 50 awr, 75 awr a 100 awr y flwyddyn gyda'r oriau wedi'u gwasgaru dros uchafswm o 40 wythnos o'r flwyddyn.

Gwahoddir ceisiadau gan weithwyr presennol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru sydd â phrofiad a chymwysterau addas i fodloni Manyleb y Person. Sylwch: Dylai ymgeiswyr System Dyletswydd Wrth Gefn ystyried eu horiau argaeledd wrth wneud cais

am y swydd wag hon a thrafod unrhyw ymholiadau ynghylch argaeledd gyda'ch Rheolwr Gorsaf SDdWG.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn amodol ar wiriad clirio Manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd gofyn iddynt hefyd ymgymryd â Hyfforddiant Diogelu perthnasol a mynychu proses Sefydlu Cadetiaid Tân cyn cychwyn.

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y swyddi hyn.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein drwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi-gwag/
Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan-gov.uk. Sylwch y bydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau trwy'r cyfeiriad e-bost a ddarperir yn y cais; sicrhewch eich bod yn gwirio pob ffolder post yn rheolaidd

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **13eg Tachwedd 2024 am 12:00 hanner dydd**.

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael Prawf Cyffuriau ac Alcohol a Gwiriad Manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn penodi.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac rydym yn croesawu gohebiaeth yn y naill iaith neu'r llall. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus ar y cam Llunio'r Rhestr Fer yn cael y cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar, a chwestiynau cyfweliad). Bydd trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gall gynnwys Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym am annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.